Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Ionawr 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans – Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, Clifford Williams John Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Dafydd Thomas Gwenno Emlyn Huws Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Stephen Churchman

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Dylan Pritchard, Manon Jones Evans. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

Dymunodd y Cadeirydd Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – neb.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 3/12/2020. Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a Huw Pritchard yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth – heb dderbyn ateb.

Materion Priffyrdd mis Tachwedd

Pentrefelin – canclwm dan sylw ar dir preifat. Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd ei fod hefyd yn tyfu wrth Plas Gwyn a Lôn Tabor.

Arwyddion Matrics B4410 Pont Croesor - Cyngor Gwynedd yn nodi sylwadau'r Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu i holi beth yw bwriad Chyngor Gwynedd ynglŷn â chael y matrics i weithio.

Bryncir – Bont Felin dŵr yn cronni. Sefyllfa ariannol yr Adran Briffyrdd yn cyfyngu be ellir ei wneud. Gobeithir, yn y dyfodol, gyda chaniatâd perchennog y tir cyfagos, edrych be sy'n achosi'r dŵr i gronni.

Materion Adran Priffyrdd mis Rhagfyr – heb dderbyn ateb.

Cae Chwarae Penmorfa

Derbwyniwyd Rhif Cofrestru gan y Swyddfa Cofrestr Tir. Clerc i gael copi o'r gweithredoedd gan Iddon Edwards cyn gwneud ymholiadau pellach.

7 **Mynwentydd**

Ffordd Mynwent Prenteg – heb dderbyn ateb gan berchnogion Fron Oleu.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Cwm Pennant a Chwmystradllyn

Problemau gyda'r ffonau. Cynnwys yn Adroddiad i'r Wasg a gofyn i drigolion yrru manylion o'r problemau at y Clerc. Yna cysylltu gyda BT.

Garndolbenmaen

Problemau Parcio - derbyniwyd 2 opsiwn ar gyfer lleoli llinellau melyn yn y pentref. Penderfynwyd dewis Opsiwn 1 gydag argymhelliad y dylid ymestyn y llinell felen at Nant Heddwch. Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad a gofyn iddynt ymgynghori gyda thrigolion y pentref.

Polion adlewyrchu heb gael eu ail osod – Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Prenteg

Modurdy preifat ym maes parcio'r Cyngor mewn cyflwr gwael. Gofyn i Gyngor Gwynedd edrych ar hwn ar frys.

Rhybuddion Cau Ffordd (Gwaith priffyrdd Dinas Ddu Beddgelert) - er bod yr ardal ym mhlwy Beddgelert, mi fydd yn effeithio trigolion plwyf Dolbenmaen. Gofyn i Gyngor Gwynedd cysylltu gyda'r 2 Gyngor Cymuned mewn amgylchiadau fel hyn.

Biniau Halen - Yn ddiweddar, cysylltodd un o drigolion y pentref gyda Galw Gwynedd i holi pwy ddylai lenwi'r biniau halen. Hysbyswyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd hyn. Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau fod gwybodaeth gywir yn cael ei rannu gyda'r trigolion lleol - yn yr amgylchiad yma, nid y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol.

10 Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019 – 2020

Adroddwyd fod y cyfrifon wedi eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nid oedd angen gweithredu ar unrhyw faterion.

Cylch archwilio cyfrifon ar gyfer Cyngor Dolbenmaen – 2020 – 21 Sylfaenol, 2021 – 2022 – Sylfaenol, 2022 2023 – Llawn.

11 Cyllideb 2021 – 2022 a gosod praesept

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dangos –

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2020;
- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2021;
- Cyllideb drafft 2021 – 2022.

Penderfynwyd cadw'r praesept yn £18,000.

Amanda N Owen yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

12 Adolygu gofynion yr archwilwyr allanol ee rheolau sefydlog ac asesiad risg

Trafodwyd Asesiad Risg 2020 a phenderfynwyd nad oedd angen ei newid. Amanda N Owen yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

Adolygwyd a diweddarwyd y Rheolau Sefydlog, Cod Ymddygiad, Rheolau Cyllidol, Cynllun Iaith Gymraeg a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2019.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Megan Lloyd Williams y cyfarfod.

13 A487 Llwyn Mafon – Ymgysylltiad â Rhan-ddeiliaid

Ar ran Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn y broses o edrych ar opsiynau i wella rhan o'r lôn wrth Llwyn Mafon.

Cafwyd cyfle i rhoi barn ar y problemau gyda'r darn o'r lôn ac awgrymu gwelliannau posib.

14 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - rhybudd cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â Wayside, Pentrefelin - rhannwyd 30/11/2020.
Grant Parciau Chwarae Canllawiau. Rhannwyd gyda GEH ac IE 30/11/20.
Ychwanegwyd
Rhybudd cau ffordd dosbarth III gyferbyn â ffordd fynediad Glan Byl, Pentrefelin.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Newyddlen Etholiadol Llywodraeth Cymru.
b Mantell Gwynedd Bwletin Rhif 8.
c Archwilio Cymru – Cylch Archwilio Cynghorau.

15 **Cynllunio**

Rhestrau – 28/11, 4/12, 18/12/2020.

Ceisiadau Cynllunio
NP2/16/79U Ail leoli lle chwarae plant ac addasu ac ymestyn y lle chwarae presennol yn le eistedd allanol ynghyd a thir lunio. Plas Aberdeunant, Prenteg, LL49 9SR Dyddiad cau: 30/12/2020. Dim gwrthwynebiad.

16 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Cylch Meithrin Garndolbenmaen, Pwyllgor Mynwent Tai Duon, Canolfan Pentrefelin, Menter y Plu, Neuadd Garndolbenmaen, Ambiwlans Awyr Cymru, Radio Ysbyty Gwynedd. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.33
Yr Wylan	=	£ 16.00
Swyddfa Cofrestru Tir	=	£ 4.00
Archwilio Cymru	=	£ 262.40

Derbyniadau - dim.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.47 Cyfredol £17,810.71

17 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

Wasg – Problemau Parcio Garndolbenmaen, Ffonau Cwm Pennant, A487 Llwyn Mafon, Cais Cynllunio.

Gwefan – Cofnodion